Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Ymateb i adroddiad y Grŵp Adolygu Cymraeg ail iaith, Un iaith i bawb** |
| **DYDDIAD** | **15 Mai 2014** |
| **GAN** | **Carwyn Jones AC, Prif Weinidog a Huw Lewis AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau** |

Ym mis Gorffennaf 2012, sefydlwyd Grŵp Adolygu annibynnol gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd dan gadeiryddiaeth yr Athro Sioned Davies, er mwyn darparu cyngor ar wella darpariaeth Cymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4. Prif amcan y Grŵp oedd ystyried pa newidiadau y dylid eu gwneud i alluogi mwy o ddysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r dosbarth, yn eu cymunedau ac yn eu gwaith yn y dyfodol.

Cyfarfu'r Grŵp a chasglu tystiolaeth gan nifer o randdeiliaid sydd ynghlwm wrth addysg Cymraeg ail iaith gan gynnwys athrawon, disgyblion a rhieni. Mae adroddiad terfynol y Grŵp, *Un iaith i bawb,* a gafodd ei gyhoeddi ym mis Medi 2013, yn tynnu sylw at nifer o broblemau gyda'r dull presennol o ddysgu Cymraeg ail iaith ac yn archwilio themâu rydym yn ymrwymedig o fynd i'r afael â hwy yn ystod y cam nesaf o'r gwaith o adolygu'r cwricwlwm a threfniadau asesu yng Nghymru.

Ar 12 Mawrth cyhoeddwyd y bydd yr Athro Graham Donaldson yn cadeirio adolygiad annibynnol o'r trefniadau hyn ac yn darparu argymhellion a fydd yn sail i'r gwaith o ddatblygu Cwricwlwm i Gymru. Bydd yr adroddiad *Un iaith i bawb* yn rhan bwysig o'r dystiolaeth wrth i'r Athro Donaldson symud y gwaith hwn yn ei flaen.

Bydd pob newid i addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg i wella safonau mewn Cymraeg ail iaith i alluogi pobl ifanc i ddod yn siaradwyr Cymraeg cymwys yn y dyfodol. Mae hyn hefyd yn cyfrannu at yr ymrwymiad a wnaed yn y Strategaeth iaith, *Iaith fyw: iaith byw* i gynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Cymraeg i blant a phobl ifanc a'u hymwybyddiaeth o werth yr iaith.

Mae argymhellion *Un iaith i bawb* yn amryfal ac yn amrywiol. Rydym yn mynd i'r afael â rhai ohonynt eisoes tra bo eraill yn argymhellion tymor hir sy'n gysylltiedig â'r gwaith hir-ddisgwyliedig ond angenrheidiol o ailwampio'r ddarpariaeth Cymraeg ail iaith.

Heddiw, mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau  wedi cyhoeddi ei ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad sydd yn sefyll y tu allan i'r adolygiad o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru.

Mewn ymateb i'r argymhellion, bydd Llywodraeth Cymru yn:

- hwyluso hybu'r Gymraeg fel pwnc ac fel sgil ar gyfer y gweithle;
- parhau i ariannu gweithgareddau ar gyfer athrawon Cymraeg ail iaith trwy Grant y Gymraeg mewn Addysg a'r Cynllun Sabothol;
- annog ysgolion i rannu arfer da o fewn ac ar draws consortia;
- gweithio gyda chonsortia i sicrhau bod trefniadau asesu statudol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 a 3 yn cael eu gweithredu'n effeithiol;
- parhau i gomisiynu adnoddau dysgu ac addysgu o safon;
- gweithio gyda Sefydliadau Dyfarnu a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch Cymraeg ail iaith diwygiedig yn addas;
- diddymu'r cwrs byr TGAU Cymraeg ail iaith; a
- monitro argaeledd ac ymrestriadau UG a Safon Uwch Cymraeg ail iaith.

Bydd yr argymhellion sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag asesu a'r cwricwlwm yn cael eu hystyried yn ystod adolygiad annibynnol yr Athro Graham Donaldson. Gallai rhai gweithgareddau mewn ymateb i argymhellion eraill hefyd gael eu dylanwadu neu'u heffeithio gan adolygiad yr Athro Donaldson.

Hoffem unwaith eto ddiolch i'r Athro Sioned Davies ac i aelodau'r Grŵp am eu gwaith caled i gynhyrchu'r adroddiad a'i argymhellion.  Hoffem hefyd fynegi diolch i bawb a weithiodd ochr yn ochr â nhw, a gyfrannodd at eu gwaith ac i'r rhai a roddodd dystiolaeth a chyngor i'r Grŵp.

http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/wagreviews/one-lanuage-for-all/?lang=cy